



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgorffori Hawliau Plant o fewn Llywodraeth Cymru



Llawlyfr i gefnogi staff

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales

Pwrrpas y llawlyfr:

Cefnogi gwaith llunio polisi o ansawdd uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc;

- Darparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc arfer eu hawl i godi eu llais ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.**
-

Cynnwys y llawlyfr

1. Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant

2. Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant

3. Cefnogaeth a hyfforddiant pellach



Rhan 1:
**Dull gweithredu seiliedig ar
hawliau plant**

Hawliau plant yng Nghymru

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau plant o dan 18 oed.

Mae dyletswydd ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i:

- Roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i BroTOCOLau Dewisol wrth wneud cyfreithiau a pholisïau newydd, neu pan fyddant am eu newid;
- Codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'i BroTOCOLau Dewisol.

Beth mae 'sylw dyledus' yn ei olygu?

Rhoi ystyriaeth gytbwys i faterion penodol, gan gynnwys hawliau plant, wrth wneud penderfyniadau.

Hawliau plant yng Nghymru

Pa ddeddfwriaeth sydd ar waith gennym?

Mae [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn.

Y Cynllun Hawliau Plant

Mae'r [cynllun](#) yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn.

Mae 54 erthygl i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

Mae 42 yn amlinellu hawliau plant

Mae 12 yn ymwneud â sut gall llywodraethau
sicrhau bod plant yn manteisio ar yr hawliau
hyn

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hyd at
18 oed yr hawliau hyn

Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae **Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru**, a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn darparu fframwaith strategol i integreiddio hawliau plant i'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisiau ac arferion. Mae'n seiliedig ar bum egwyddor allweddol.

Y pum egwyddor hon yw fframwaith ein Cynllun Hawliau Plant, ac maent yn helpu i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

- 1. Ymgorffori hawliau plant** – dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau;
- 2. Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod orau y gall fod ac nad yw'n dioddef camwahaniaethu;
- 3. Grymuso plant** – gwella gallu plant a phobl ifanc fel unigolion fel eu bod yn medru manteisio'n well ar hawliau;
- 4. Cyfranogi** – gwrando ar blant a phobl ifanc, a rhoi ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau;
- 5. Atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant a phobl ifanc am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Lleisiau plant wrth wneud penderfyniadau

Mae **Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** yn nodi bod gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

Disgwylir i swyddogion Llywodraeth Cymru fynd ati i ddod o hyd i gyfleoedd i blant a phobl ifanc godi eu llais fel rhan o'r broses o lunio polisiau a deddfwriaeth a gwneud penderfyniadau.

Plant a phobl ifanc yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain – fe allan nhw ddweud wrthyh sut mae cynigion yn debygol o effeithio arnyn nhw.

Lleisiau plant wrth wneud penderfyniadau



Mae sawl mantais i siarad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- gwella polisïau, cyfreithiau a darpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- lliniaru ar effeithiau niweidiol posibl na chawsant eu hystyried efallai;
- cynyddu dilysrwydd a chyfreithlondeb penderfyniadau, yn sgil y cyd-drafod cyn eu gwneud;
- gwireddu hawl plant i fynegi eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- grymuso plant a phobl ifanc yn fwy i gyfrannu at holl gylchoedd bywyd.



Rhan 2: **Aseiad o Effaith ar Hawliau Plant**

Beth yw Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant?

Mae'r Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant yn rhan allweddol o'r Asesiad Effaith Integredig. Mae templed llawn yr Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ar gael yn [Atodiad B](#) y llawlyfr hwn.

Mae'n fframwaith ar gyfer swyddogion i ystyried a chofnodi yn systemataidd p'un a yw cynigion polisi yn gydnaws â hawliau plant a phobl ifanc.

Hwn yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau.

Dylid defnyddio Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor Gweinidogol a rhaidd ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad Gweinidogol.

Pam mae Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant yn bwysig?

- Mae'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y lle canolog wrth wneud penderfyniad.
 - Mae'n helpu i ddiogelu a gwireddu hawliau plant.
 - Mae'n helpu i gydnabod anghenion gwahanol grwpiau plant.
 - Mae'n gwella eich polisi drwy brofi eich rhagdybiaethau gyda'r bobl y mae'n debygol o effeithio arnynt.
 - Mae'n helpu i liniaru effeithiau negyddol posibl ar blant a phobl ifanc.
 - Mae'n gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth yn fwy tryloyw.
-

Oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant arnaf?

Mae adran 2.2 o'r Asesiad Effaith Integredig yn ei gwneud yn ofynnol ichi nodi p'un a oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ai peidio. Dylech ystyried yn ofalus p'un a yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'u hawliau.

Mae angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant:

Dylid cwblhau Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant os bydd unrhyw effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar blant a phobl ifanc a'u hawliau.


- Bydd y rhan fwyaf o feysydd polisi yn cael rhywfaint o effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant. Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.
- Efallai y bydd angen ichi ystyried yr effeithiau ar blant a phobl ifanc sawl gwaith yn ystod y broses o lunio polisi.
- Gellir cynnal Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant hefyd fel asesiad untro o effaith pan nodir yr angen.

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant:

Ni fydd pob penderfyniad a cham a gymerir gan Weinidogion yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac yn galw am Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant.

- Os nad oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant, bydd angen ichi egluro sut y daethoch i'r casgliad na fydd y polisi yn effeithio ar blant a phobl ifanc a pham yn adran 2.2 o'r Asesiad Effaith Integredig.
 - Dylid nodi hyn hefyd yn eich cyngor Gweinidogol, ynghyd ag esboniad ynghylch sut y daethpwyd i'r penderfyniad na ddylid cwblhau Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant.
 - Gallai aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys plant) eich herio os ydynt o'r farn eich bod wedi dod i benderfyniad anghywir nad oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant.
-

Proses Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant



1. Nodi'n glir amcanion y polisi

Dylech amlinellu'n glir ar ddechrau eich Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant effaith pa benderfyniad rydych yn ei hasesu.

Cyhoeddir Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn darparu cyddestun a naratif ehangach eich dadansoddiad ar gyfer y cyhoedd.

Cofiwch...

gysylltu â'r **Gangen Plant** am gyngor i ddechrau. Gall y gangen helpu i drefnu cyngor arbenigol allanol ar yr Asesiadau drwy eu Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant.

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys: swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a UNICEF.

2(i) Casglu tystiolaeth

Dylai eich asesiad o'r effaith ddefnyddio tystiolaeth a data cadarn i:

- Ddeall effaith bosibl eich cynnig ar blant a phobl ifanc;
- Dangos sut bydd eich cynnig yn effeithio ar blant ag anghenion gwahanol a'u hawliau; a
- Helpu i nodi pa grwpiau o blant a phobl ifanc y gallai fod angen ichi siarad â nhw.

Ymhlith y ffynonellau tystiolaeth fydd:

- Y Gwasasnaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
- Ystadegau swyddogol/ data Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau addysg ac iechyd
- Data cymharol rhyngwladol, ee UNICEF
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Mae gan y Gangen Plant hefyd restr o adnoddau.

Gall amcan eich polisi effeithio ar feysydd polisi eraill. Mae trafodaethau â thimau polisi eraill hefyd yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

Cofiwch...

Mae profiad plant o fywyd yn wahanol, yn dibynnu ar eu hoedran, eu cefndir economaidd-gymdeithasol, eu hil, eu hanabledd a phrofiadau eraill.

2(ii) Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Mae Erthygl 12 yn rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Drwy ofyn i blant am eu barn am eich cynnig, gallwch addasu eich polisi yn well i'w hanghenion;
- Dylech ddeall sut mae eich cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant, a chymryd camau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn;
- Plant yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain – gallant ddarparu gwybodaeth werthfawr am eu profiadau, y rhwystrau maent wedi'u hwynebu a sut y bydd cynigion y polisi yn effeithio ar eu hawliau.
- Mae'r **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc** yn amlinellu'r prif faterion y dylech fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cysylltwch â'r Gangen Plant yn **childrensrights@llyw.cymru** i drafod sut gallant eich cefnogi i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Gallant roi cyngor am ddulliau effeithiol o'u cynnwys a'ch rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau partner sydd wedi hen sefydlu perthynas â phlant a phobl ifanc.

2(ii) Amrywiaeth a chynhwysiant

Dylech ddechrau drwy nodi pa grwpiau o blant a phobl ifanc y mae eich polisi fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

Mae'n bwysig ystyried sut bydd polisiau yn effeithio ar wahanol blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried effeithiau gwahanol eich polisi ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc:

- **blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc;**
- **plant anabl;**
- **plant sy'n byw mewn tlodi;**
- **plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;**
- **Sipsiwn, Roma a Theithwyr;**
- **mudwyr;**
- **ceiswyr lloches;**
- **ffoaduriaid;**
- **siaradwyr Cymraeg;**
- **plant â phrofiad o ofal;**
- **plant LHDTQ+.**

Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac nad un profiad unffurf a fydd gan bawb o fewn y carfanau hyn.

Mewn achosion eraill, efallai y bydd siarad â grŵp targed penodol o blant o fudd. Gall y Gangen Plant helpu i'ch rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau penodol sy'n cynrychioli grwpiau plant a phobl ifanc.


2(ii) Dulliau ymgysylltu

Dyma rai dulliau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Enghreifftiau yw'r rhain, nid rhestr gyflawn.

Mae angen i'r fethodoleg a ddewisir fod yn gydnaws â nodau cynnig y polisi, parchu'r cyfyngiadau amser ac adnoddau, bod yn sensitif ac egwyddorol, ac ystyried nodweddion ac anghenion penodol y plant a'r bobl ifanc.

Os yw'n bosibl, dylech weithio **ar sail hirdymor** gyda phlant a phobl ifanc drwy gydol y broses o ddatblygu eich polisi er mwyn cynyddu a gwella ansawdd eu cyfraniad.

Rhaid osgoi gweithredu er mwyn ticio'r bocs yn unig (hy holi barn plant a phobl ifanc, ond peidio ag ystyried y farn honno).



3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, dylech ystyried effaith debygol eich polisi ar blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Yn fwy cyffredinol, dylech ddefnyddio'r dystiolaeth hon i ystyried sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i BroTOCOLau Dewisol**. Rhowch enghreifftiau clir yn gysylltiedig â'ch cynnig, gan gyfeirio at erthyglau'r Confensiwn.

Cofiwch...

Lle nodir effeithiau negyddol fel rhan o'r broses asesu effaith, dylech ystyried y cyfleoedd i liniaru'r effeithiau hynny.

Dylid cyflwyno'r mesurau lliniaru hyn i'r Gweinidog fel rhan o gynnig y polisi.

4. Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog – rolau a chyfrifoldebau

Cymeradwyaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr

Mae gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr rôl benodol o ran cymeradwyo'r Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant, gan mai nhw yw'r swyddogion atebol. Dylent herio swyddogion mewn ffordd adeiladol a'u cefnogi yn eu dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a rhoi cyngor cadarn i Weinidogion. Ystyrir bod Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant yn gyflawn pan fydd wedi'i gymeradwyo gan Ddirprwy Gyfarwyddwr.

Cyngor Gweinidogol

Dylid ymgorffori canfyddiadau a dadansoddiad eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedyn i'ch cyngor Gweinidogol er mwyn llywio'r penderfyniad. Dylech naill ai greu atodiad o'r asesiad effaith yn eich cyngor, neu grynhoi'r prif effeithiau a nodwyd a'r opsiynau i liniaru arnynt. Mae'r broses hon yn dangos bod Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Penderfyniad y Gweinidog

Rhaid cwblhau Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant cyn i'r Gweinidog wneud penderfyniad.

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Unwaith bydd y Gweinidog wedi dod i benderfyniad, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru er tryloywder ac atebolrwydd.

Dylech gyhoeddi adrannau 1 ac 8 eich Asesiad Effaith Integredig, ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A), yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd angen cyflwyno'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad Effaith Integredig i'ch rheolwr gwe adrannol (cc blwch CRIA), a fydd yn eu lanlwytho.

Mae'r Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd ers 1 Ionawr 2020 wedi cael eu cyhoeddi.

Maent i'w gweld yma [**Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd**](#)

Rhaid anfon [pob Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir](#) i flwch [**CRIA@llyw.cymru**](mailto:CRIA@llyw.cymru)

6. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

Fersiynau i blant

Anogir swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio fersiynau o ganllawiau, ymgynghoriadau a dogfennau polisi i blant lle nodwyd y bydd cynigion y polisi / y ddeddfwriaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

I gael cyngor am sut i lunio dogfennau i blant, gweler Easy Read, neu ewch i dudalen hawliau plant y fewnrwyd.

Cofiwch...

Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, dylech ystyried sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad.

7. Monitro ac adolygu

- Dylech amlinellu pa fecanwaith monitro y byddwch yn ei sefydlu i adolygu eich polisi / penderfyniad ar ôl ei weithredu.
- Ar ôl cyfnod y cytunir arno, mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
- Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd angen ichi ddiweddarau'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynnig yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Dylid cyflwyno'r asesiad effaith a adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig / Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a adolygwyd hefyd.

Cofiwch...

Os bydd angen rhagor o gyngor ac arweiniad o ran eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gallwch gysylltu â blwch [**CRIA@llyw.cymru**](mailto:CRIA@llyw.cymru)

A young girl and a woman wearing a hijab are sitting on a couch, reading a book together. The woman is pointing at the book, and the girl is looking at it with interest. They are both smiling. The background is a simple, light-colored wall.

Rhan 3: Cefnogaeth a hyfforddiant pellach

Cyngor arbenigol

Mewnol – y Gangen Plant

Mae'r **Gangen Plant** yn cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar draws Llywodraeth Cymru o ran holl feysydd hawliau plant. Gall y gangen:

- Helpu swyddogion i ddeall Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i BroTOCOLau Dewisol;
- Hwyluso'r cysylltiad rhwng swyddogion a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant;
- Cefnogi swyddogion i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc;
- Cefnogi swyddogion i baratoi dogfennau i blant; a
- Rhoi cyngor a chefnogaeth o ran Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth neu gefnogaeth arnoch, cysylltwch â'r Gangen Plant yn childrensrights@llyw.cymru

Allanol – y Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant

Mae'r **Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant** yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru;
- Plant yng Nghymru;
- UNICEF UK; ac
- Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Os byddwch am ddangos cynnig polisi neu Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant i'r Grŵp Cyngori, cysylltwch â'r Gangen Plant yn childrensrights@llyw.cymru

Hyfforddiant ac adnoddau

Modiwlau e-ddysgu

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig hyfforddiant i'w staff ar hawliau plant drwy fodiwlau canlynol y Lab Dysgu:

- 'Cefnogi Hawliau Plant yng Nghymru'
- 'Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant'
- 'Diogelu Plant ac Oedolion'

Dolenni at adnoddau

- [Cynllun Hawliau Plant 2021](#)
- [Cyflwyniad i lyfryn Hawliau Plant](#)
- [Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc](#)
- [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru](#)
- [Cynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant](#)
- [Adnoddau UNICEF](#)
- [Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)

Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Yn ogystal â chydabod eu hawliau dynol sylfaenol, mae'n rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w diogelu rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Yn 2011, cafodd y Confensiwn ei wneud yn gyfraith gwlad yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol wrth wneud penderfyniadau.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I ddarllen y testun llawn o Gonfensiwn y CU ewch i:

http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC_PRESS200910web.pdf



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:

Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru
llyw.cymru/hawliau-plant

e-bost CCUHP Llywodraeth Cymru
hawliauplant@llyw.cymru

Cymru Ifanc
www.cymruifanc.cymru

Comisiynydd Plant Cymru
www.childcomwales.org.uk

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>



@C_R_Wales @ChildrensRightsWales

Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddioglydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidio iddyn nhw ac i eraill.

Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fyynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hól.

Erthygl 20

Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddwr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 25

Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Erthygl 26

Dylai'r llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hangenion corfforol a meddyliol. Dylai'r llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill ac yr amgylchedd.

Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafyr i bobl neu beidio.

Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Erthygl 32

Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

Erthygl 33

Dylai'r llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34

Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

Erthygl 35

Dylai'r llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

Erthygl 42

Dylai'r llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales

Atodiad B

Templed ar gyfer Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales